I sylw rhieni rhieni dosbarth Mrs Roberts

Medi 10fed 2020

Annwyl riant,

Ein thema y tymor yma yw “Y Gofod”.  Bydd y gwaith yn seiliedig ar y llyfr “Pobl y Pants o’r Gofod”.

Yn deillio o’r stori byddwn yn dysgu am y Gofod, y Lleuad a’r Planedau. Byddwn yn edrych ar sut mae teithio i’r gofod ac yn dysgu am y gofodwyr enwog Chris Armstrong a Tim Peak.  Byddwn hefyd yn ymchwilio i ffynnonnellau goleuni a chysgodion.

Yn ystod y thema bydd y plant yn cael cyfleoedd i :

- Ysgrifennu stori
- Ysgrifennu disgrifiad
- Cynnal arbrawf wyddonol
- Creu animeiddiad

Byddwn hefyd yn dathlu dathliadau achlysurol yn ystod y tymor megis Diolchgarwch, Noson Tân Gwyllt a’r Nadolig.

Mae llais y plentyn yn bwysig i ni.  Mae’r linc isod yn rhoi cyfle i chi a’ch plentyn gynnig syniadau ar y thema:

https://bit.ly/3bKXt7x

Bydd angen dillad ar gyfer Addysg Gorfforol ar Ddydd Mercher. Sicrhewch fod enw eich plentyn ar bob dilledyn. Yn ystod y cyfnod hwn mae croeso i’r plant gadw eu gwisg addysg gorfforol mewn bag arwahan ar eu peg yn yr ystafell newid.

Gyda diolch
Mrs M Roberts